**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) (Diwygio) 2025**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Amaethyddiaeth - Datblygu Cynaliadwy ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Dirprwy Brif Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) (Diwygio) 2025.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

**28 Chwefror 2025**

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i Reoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn ymateb i faterion yr adroddwyd arnynt gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ym mhwyntiau 3, 5, 6 a 7 o'u hadroddiad ar Reoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024 (gweler SL(6)507).

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir y Rheoliadau yn unol ag adran 8A(7) o Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995.

3.2 Mae adran 8A yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau i alluogi tenantiaid i gyfeirio i'w cyflafareddu geisiadau am gydsyniad landlord ar gyfer gweithgareddau sydd wedi'u cyfyngu o dan delerau eu cytundeb tenantiaeth neu geisiadau am amrywio telerau, pan fydd y cais hwnnw'n ymwneud â thenant sy'n gwneud cais am gymorth ariannol o dan bŵer darpariaethau cymorth o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 neu'n bodloni rhwymedigaeth statudol.

3.3 Mae'r Rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

### 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r amserlen yn rheoliad 3(8) o ddau fis i bedwar mis, sy'n cyd-fynd â'r bwriad polisi gwreiddiol.

4.2 Maent hefyd yn diwygio rheoliad 2 (dehongli) i ychwanegu'r gair "neu" at y testun Cymraeg yn y diffiniad o "gymorth ariannol perthnasol" ac yn disodli "deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir" gyda "deddfwriaeth uniongyrchol a gymathwyd" yn y diffiniad o "ddyletswydd statudol".

4.3 Yn ogystal â hyn, mae rheoliad 4 (dyfarniadau neu benderfyniadau gan y cymrodeddwr) yn cael ei ddiwygio i ychwanegu "neu'r penderfyniad" ar ôl "dyfarniad".

### 5. Ymgynghori

5.1 Nid oes unrhyw ymgynghoriad wedi ei gynnal gan fod y Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiad i adlewyrchu'r bwriad polisi gwreiddiol. Nid ydynt yn adlewyrchu newid polisi ehangach.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn, gan eu bod yn cywiro rheoliadau presennol. Nid yw'r rheoliadau yn newid polisi. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru o ran cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.